# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-17-2005):

### Dyddiad y Cyfarfod: 21 Mehefin 2005

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| Enw | Teitl y Swydd |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Dai Lloyd, Rosemary Butler

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-16-2005

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2005.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Diolchodd y Cadeirydd i Sandy Mewies am ei chyfraniad at waith y Pwyllgor ac estynnodd groeso yn ôl i'r Pwyllgor i Jeff Cuthbert.

3.2 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod y Pwyllgor Busnes y dydd Mawrth blaenorol (14.06.05) wedi cymeradwyo cynnig y Pwyllgor Deddfau ynghylch newid y Rheolau Sefydlog. Dywedodd y byddai'r mater yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn maes o law.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

### 4.1 LC1105 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2005

Nodwyd bod y gair "dependent" wedi'i gamsillafu ym mharagraff 2(d). Dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol y gallai'r pwynt gael ei gywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

4.2 Er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg a danlinellwyd yn yr Adroddiad Drafft o dan Reol Sefydlog 11.7(vi), dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol wrth yr Aelodau y byddai angen newid yr Adroddiad Drafft er mwyn cynnwys eglurhad ar y testun Saesneg (defnyddio "for" yn hytrach nag "in"). Gyda'r ychwanegiad yma, cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.3 Nodwyd bod y Pwyllgor Deddfau, yn ôl yn 2001, wedi awgrymu, mewn perthynas â set flaenorol o Reoliadau diwygio (LC341) y dylai ystyriaeth gael ei rhoi i wneud ailddeddfiad wedi'i gydgrynhoi ar Reoliadau 1988 ar gyfer Cymru. Cafodd yr awgrym yma ei ailadrodd yn adroddiad y Pwyllgor ar LC686. Cafodd ail set o ddiwygiadau ei gwneud yn 2003, dwy set arall yn 2004 ac erbyn hyn roedd Rheoliadau 1988 yn cael eu diwygio ymhellach eto. Er eu bod bellach yn gymwys mewn perthynas â

Chymru yn unig, nododd y Pwyllgor hefyd mai dim ond yn Saesneg yr oedd y Rheoliadau ar gael o hyd. O gofio'r angen i'w chydgrynhoi ar fyrder er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch a dealladwy yn y ddwy iaith, penderfynodd yr Aelodau ysgrifennu at y Gweinidog i roi gwybod iddo am y sefyllfa. Camau i'w cymryd: Y Cadeirydd/Y Clerc

**4.4 LC1107 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) (Cymru) 2005**

Awgrymodd y Cynghorydd Cyfreithiol y dylid ychwanegu un pwynt o dan reol Sefydlog 11.7 (vi) at yr Adroddiad Drafft: argymhelliad y dylai'r gair "pwysig" gael ei ddefnyddio yn y testun Cymraeg yn hytrach na "mawr" i gyfateb i "major". Cytunodd yr Aelodau â'r awgrym. Gyda'r ychwanegiad yma, cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.5 O ran yr Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

**LC1100 - Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005**

**LC1101 - Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru (Diwygio) 2005**

**LC1102 - Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) (Diwygio) 2005**

**LC1103 - Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005**

**LC1104 - Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin) (Cymru) 2005**

**LC1106 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Adennill Costau) (Cymru) 2005**

## Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod y Papur Gwyn ar ddyfodol y Cynulliad wedi'i gyhoeddi ers y cyfarfod diwethaf ac y byddai ei gynigion yn dwyn goblygiadau pwysig ar gyfer gwaith y Pwyllgor Deddfau. Dywedodd y Cadeirydd y byddai angen i'r Pwyllgor gyfrannu at ymateb y Cynulliad i'r Papur Gwyn. Awgrymodd y dylai'r Cynghorwyr Cyfreithiol baratoi nodyn i'r aelodau ei ystyried yn y cyfarfod yr wythnos wedyn. Camau i'w cymryd: Y Cynghorwyr Cyfreithiol/Y Clerc

## Camau i'w Cymryd

4.1 Gofynnodd yr Aelodau i’r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglyn ag LC1105 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2005 i roi gwybod iddo am yr argymhelliad oedd wedi’i wneud drosodd a thro gan y Pwyllgor y dylid cydgrynhoi ac ailddeddfu Rheoliadau 1988 i Gymru.

5.1 Gofynnwyd i’r Cynghorwyr Cyfreithiol baratoi nodyn ar gyfraniad y Pwyllgor Deddfau at ymateb y Cynulliad i’r Papur Gwyn er mwyn i’r Aelodau ystyried y mater yn y cyfarfod yr wythnos wedyn.
Camau i’w cymryd: Y Cynghorwyr Cyfreithiol/Y Clerc

5.2 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 28 Mehefin 2005.